Y 4 Diben

Gwaith Mrs Karen Huws

# Dinesydd egwyddorol, gwybodus

Rydw i'n chwilio am wybodaeth ac yn gwneud fy mhenderfyniadau fy hun

Rydw i'n deall bod pethau da a drwg yn y byd

Rydw i'n gofalu am hawliau pob plentyn

Rydw i'n gwneud fy ngorau i helpu eraill

Rydw i'n parchu pobl o wahanol gefndiroedd a gwledydd boed hynny'n ddoe, heddiw neu'n y dyfodol

Rydw i'n credu ein bod i gyd yn wahanol ond yn gyfartal

Rydw i'n edrych ar ôl yr amgylchedd

Rydw i'n Gymro/Cymraes ond hefyd yn rhan o'r byd mawr.

Mae gen i hawl i leisio fy marn ac yn gwybod bod fy marn yn bwysig

ⓗ K MacIntyre Huws / smala.net

Y 4 Diben

Gwaith Mrs Karen Huws

# Unigolyn iach, hyderus

Mae gen i werthoedd cadarn a rydw i'n datblygu fy syniadau a'r hyn yr wyf yn ei gredu

Gallaf siarad yn agored am bethau yr wyf yn eu credu

Rydw i'n parchu pobl o wahanol gefndiroedd a gwledydd boed hynny'n ddoe, heddiw neu yfory

Rydw i'n deall bod camgymeriadau'n fy helpu i ddysgu ac nad ydw i'n rhoi'r gorau iddi. Rydw i'n dyfalbarhau o hyd.

Rydw i'n deall bod gan bobl eraill deimladau

Rydw i'n deall gwerth cadw fy meddwl a 'nghorff yn iach drwy fwyta bwydydd maethlon ac ymarfer corff.

Gallaf wneud ffrindiau, a'u cadw, oherwydd fy mod yn eu parchu

Rydw i'n mwynhau her

Rydw i'n hapus, yn iach a diogel

Rydw i'n gwybod os yw'n werth cymryd risg ai peidio

Gallaf berfformio o flaen eraill

ⓗ K MacIntyre Huws / smala.net

Y 4 Diben

Gwaith Mrs Karen Huws

# Cyfrannwr mentrus, creadigol

Mae gen i syniadau da ac rydw i'n gallu eu defnyddio yn effeithiol

Gallaf ddatrys amrywiaeth o broblemau mewn gwahanol ffyrdd

Rydw i'n gwneud y gorau o bob cyfle a ddaw fy ffordd

Rydw i'n cymryd risgiau synhwyrol i wneud pethau'n well

Gallaf arwain yn ogystal â gadael i eraill arwain

Rydw i'n cyfleu fy syniadau mewn gwahanol ffyrdd

Rydw i'n helpu eraill

Rydw i'n gweithio a chwarae yn rhan o dîm

Rydw i'n defnyddio fy sgiliau yn fy ngwaith ac wrth chwarae

ⓗ K MacIntyre Huws / smala.net

Y 4 Diben

Gwaith Mrs Karen Huws

# Dysgwr uchelgeisiol, galluog

Rydw i'n ceisio gwneud fy ngorau glas o hyd

Rydw i'n defnyddio'r hyn Rydw i'n ei ddysgu mewn gwahanol sefyllfaoedd

Rydw i'n gofyn cwestiynau er mwyn datrys problemau

Rydw i'n gallu trafod pob math o wybodaeth yn Gymraeg

Rydw i'n gallu egluro'r hyn rydw i wedi ei ddysgu

Rydw i'n defnyddio rhifau mewn gwahanol sefyllfaoedd

Rydw i'n defnyddio sgiliau rhif i ddeall data

Rydw i'n defnyddio sawl math o dechnoleg

Rydw i'n gallu penderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio gwybodaeth rydw i wedi ei ddarganfod

ⓗ K MacIntyre Huws / smala.net